CAERDYDD

CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 26 TACHWEDD 2015 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 26 NOVEMBER 2015, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Council Chamber - City Hall on Dydd Iau, 26 Tachwedd 2015 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**MARIE ROSENTHAL**
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 20 Tachwedd 2015

| *Eitem* | | *Amser yn fras* | *Yr amserr hwyaf a ganiateir* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau absenoldeb* | 4.30 pm | 5 munud |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (I'w gwneyd yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)* | | |
| **3** | **Cofnodion**<br>*(Tudalennau 1 - 54)*<br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2015 fel cofnod cywir.* | 4.35 pm | 5 munud |
| **4** | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig I'r Cyngor.* | 4.40 pm | 15 mumud |
| **5** | **Cwestiynau gan y Cyhoedd**<br><br>*Derbyn cwestiynau a nodwyd yn flaenorol gan y Cyhoedd.* | 4.55 pm | 10 mumud |
| **6** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 5.05 pm | 5 mumud |
| **Busnes y Cyngor** | | | |
| **7** | **Trwyddedu: Adolygiad y Datganiad o'r Polisi Trwyddedu**<br>*(Tudalennau 55 - 118)*<br>*Atodir Adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir* | 5.10 pm | 15 mumud |
| **8** | **Tryddedu: Adolygiad Teirblynyddol y Datganaid o'r Polisi Trwydded Gamblo**<br>*(Tudalennau 119 - 162)*<br>*Atodir Addroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.* | 5.25 pm | 15 mumud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **9** | **Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2015/16**<br>*(Tudalennau 163 - 188)*<br>***Ni fydd Atodiadau A a B i Atodiad 1 yn cael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio dan y disgrifiad a geir ym Mharagraffau 14 a 21 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.***<br><br>*Cyfeiriwyd yr adroddiad i'r Cyngor gan y Cabinet ar 12 Tachwedd 2015.* | 5.40 pm | 15 mumud |
| **10** | **Diweddariadau i'r Cyfansoddiad**<br>*(Tudalennau 189 - 196)*<br>*I ystyried y diweddariadau i'r Cyfansoddiad a gytunwyd gan Bwyllgor y Cyfansoddiad ar 19 Tachwedd 2015.*<br><br>*Mae adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'i atodi* | 5.55 pm | 10 mumud |
| **11** | **Datganiadau**<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 6.05 pm | 45 mumud |
| **12** | **Hysbysiad Cynnig**<br><br>Cynnig 1<br><br>Mae'r Cyngor yn credu y dylai'r etholfraint gael ei hymestyn i gynnwys pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed ac y dylai pobl ifanc allu cyfranogi'n llawn yn y broses wleidyddol. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch 'Pleidleisio'n 16 oed' ac ymhellach yn cefnogi rhoi addysg wleidyddol gref, ddiduedd i ddisgyblion cyn oed Lefel A.<br><br>Mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet i weithio gyda Chyngor Ieuenctid Caerdydd i helpu i lobio am y newidiadau hyn.<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Knight<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Chris Davis | 6.50 pm | 30 mumud |
| **13** | **Hysbysiad Cynnig** | 7.20 pm | 30 mumud |

Cynnig 2

Noda'r Cyngor y canlynol:

Bod y Bil Undebau Llafur sydd wrthi'n cael ei drafod yn Senedd y DU yn cynnig cyfres helaeth o gynigion a fydd yn effeithio ar berthynas y Cyngor hwn gyda'i undebau llafur a'i weithlu cyfan, yn tanseilio'r hawl sylfaenol i streicio a'i gwneud yn anoddach i weithwyr drefnu eu hunain yn effeithiol mewn undebau llafur.

Mae Cyngor Caerdydd wedi penderfynu gwneud y canlynol:

Cefnogi'r TUC a'i undebau cyswllt yn eu hymgyrch i ddiogelu hawliau undebau llafur.

Ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau yn Llywodraeth Geidwadol y DU i ddatgan gwrthwynebiad y cyngor i gynigion y llywodraeth mewn cysylltiad ag undebau llafur.

Ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, Prif Weinidog Cymru, Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i ddatgan ein barn bod ymyriad Llywodraeth y DU â chysylltiadau diwydiannol lleol yn erbyn ysbryd a rheolau'r setliad datganoli.

Ysgrifennu at yr holl Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad i'w hysbysu am ein penderfyniad a'u hannog i wrthwynebu'r bil undebau llafur.

Os caiff cynigion y llywodraeth eu cyfreithioli, cyn belled ei bod yn gyfreithiol i'r cyngor fel cyflogwr, i barhau i alluogi undebau llafur cydnabyddedig i ddefnyddio tanysgrifiadau drwy'r gyflogres, neu fel arall gefnogi ymdrechion undebau llafur i symud aelodau i danysgrifio drwy ddebyd uniongyrchol, drwy alluogi mynediad at weithwyr a rhoi cymaint o rybudd â phosibl i gyflogeion o ran unrhyw newid yn y trefniadau.

Ymrwymo i beidio â defnyddio gweithwyr asiantaeth i dorri streiciau.

I barhau i weithio mewn partneriaeth gyda'n hundebau llafur cydnabyddedig.

| | |
|---|---|
| Cynigiwyd gan: | Y Cynghorydd Stubbs |
| Eiliwyd gan: | Y Cynghorydd Keith Hyde |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **14** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>*Derbyn cwestiynau llafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.* | 7.50 pm | 90 mumud |
| **15** | **Materion Brys** | 9.20 pm | 5 mumud |
| **Materion nas Gwrthwynebir y Cyngor** | | | |
| **16** | **Penodi i Swyddi Gwag y Pwyllgor**<br>*(Tudalennau 197 - 198)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'i atodi.* | 9.25 pm | 5 mumud |
| **17** | **Penodi i Gyrff Allanol**<br>*(Tudalennau 199 - 202)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'i atodi.* | 9.30 pm | 5 mumud |
| **18** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod* | | |